# PANEL YR AELODAU O RAN APELIADAU CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL.

## DYDD MAWRTH, 19 MEDI 2023

**PRESENNOL** Cynghorydd E.G. Thomas (Cadeirydd)

**Cynghorwyr:**
G. Davies S. Godfrey-Coles J.D. James

**Hefyd yn bresennol:**
A. Evans, Rheolwr Gweithrediadau - Cludiant Teithwyr
S. Williams, Uwch Swyddog Trefniant Ysgolion
A. John, Cyfreithiwr Cynorthwyol
M. Jacob, Rheolwr Traffig a Diogelwch Ffyrdd
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
A. Eynon, Prif Gyfieithydd

**Rhith-Gyfarfod**
**9.00 - 9.15 yb**

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

### 3. COFNODION

#### 3.1. 23AIN AWST 2023 - 10.00 Y.B.

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Awst 2023 (10:00y.b.) gan eu bod yn gofnod cywir.**

#### 3.5. 23AIN AWST 2023 - 10.10 Y.B.

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Awst 2023 (10:10y.b.) gan eu bod yn gofnod cywir.**

#### 3.3. 23AIN AWST 2023 - 10.20 Y.B.

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Awst 2023 (10:20y.b.) gan eu bod yn gofnod cywir.**

4. **GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitem ganlynol yn cael ei chyhoeddi gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

5. **YSTYRIED APÊL GAN YMGEISYDD A.R. YN ERBYN PENDERFYNIAD YR AWDURDOD SEF PEIDIO Â DARPARU CLUDIANT AM DDIM I'R YSGOL.**

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 4 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol. Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth bersonol mewn perthynas â'r ymgeisydd. Byddai datgelu'r wybodaeth yn ategu tryloywder ac atebolrwydd o ran y broses o wneud penderfyniad, ond ar ôl cloriannu'r mater, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, gan fod angen sicrhau na fyddai modd adnabod yr ymgeisydd na'i deulu.**

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i sylwadau ysgrifenedig yr apelydd ynghylch penderfyniad Panel Adolygu Cam 1 i wrthod rhoi cludiant ysgol am ddim i A.R. i ysgol a oedd o fewn y pellter cerdded statudol o gyfeiriad y cartref, sef 3 milltir, ac felly nid oedd yn bodloni'r meini prawf a amlinellir ym mholisi'r Cyngor ar gyfer darparu cymorth.

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i amgylchiadau unigol yr achos, ynghyd â sylwadau'r swyddogion adrannol.

**PENDERFYNWYD, yn unol â Pholisi'r Awdurdod ar gyfer Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, wrthod yr apêl gan A.R. am gludiant ysgol oherwydd bod yr ysgol o fewn y pellter cerdded statudol.**

________________________ ________________

**CHAIR** **DATE**